**Atodiad 1**

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION UNIGOL COMISIWN Y GYFRAITH AR REOLEIDDIO DIOGELWCH TOMENNI GLO YNG NGHYMRU**

Bwriad y crynodeb o'n cynigion yn y prif lythyr yw cyflwyno'r sefyllfa polisi ehangach. Mae hefyd yn gosod y cyd-destun ar gyfer argymhellion lle croesewir y bwriad cyffredinol, ond lle mae agweddau ar y ddarpariaeth y byddwn yn ceisio eu hamrywio i adlewyrchu safbwynt polisi Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi ystyried y drefn mewn perthynas â llawer mwy o domenni – glo a rhai nad ydynt yn domenni glo – na'r hyn a ystyriwyd gan Gomisiwn y Gyfraith. Mae hyn wedi dylanwadu ar ein dull gweithredu ar gyfer y drefn. Er enghraifft, yn y penderfyniad i osod dyletswyddau uniongyrchol ar bartïon y tu hwnt i'r awdurdod goruchwylio, neu i fynnu bod cynlluniau rheoli ar gyfer tomenni categori uwch yn unig i sicrhau trefn gymesur.

Gyda hynny mewn golwg, trof yn awr at ystyried argymhellion unigol yr adroddiad yn fanwl.

- *<u>Cwmpas y ddeddfwriaeth</u> (A.1, A.2)*

Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969 wedi dyddio, a hithau wedi cael ei chyflwyno pan oedd y diwydiant mwyngloddio, a'r rhan fwyaf o'r tomenni sborion, yn weithredol. Rydym yn cytuno nad yw'r gyfraith sy'n ymwneud â thomenni nas defnyddir, fel y mae ar hyn o bryd, yn addas i'r diben.

Ar hyn o bryd mae tomenni gweithredol yn dod o dan Reoliadau Mwyngloddiau 2014 a Rheoliadau Chwareli 1999. Rydym yn cytuno bod y fframwaith deddfwriaethol sy'n eu llywodraethu ar hyn o bryd yn ddigonol (*<u>A.1</u>*), ac na ddylid newid hyn (*<u>A.2</u>*).

Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar domenni glo yn unig, ond roedd yn cydnabod ei bod yn debygol y bydd angen i unrhyw drefn newydd fod yn berthnasol i bob math o domenni sborion. Roedd ein Papur Gwyn yn cynnig fframwaith cyffredinol sy'n addas ar gyfer tomenni glo a thomenni nad ydynt yn rhai glo, nas defnyddir. Roedd llawer o gefnogaeth yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cynnig hwn, gyda llawer o ymatebwyr yn cytuno bod cyflwyno tomenni nad ydynt yn rhai glo dros amser yn ddull pragmatig. Byddai'n blaenoriaethu diogelwch tomenni glo ac yn sicrhau nad yw mathau eraill o domenni, a allai arwain at risgiau tebyg, yn cael eu hanwybyddu.

Yn wahanol i domenni glo, lle mae llawer o waith wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf i'w mapio, ychydig o wybodaeth sydd ar gael am y tomenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir, sy'n llawer mwy cyffredin. Mae creu darlun cyflawn yn debygol o fod yn broses hir a chymhleth. Amcangyfrifir bod dros 20,000 o domenni nas defnyddir, nad ydynt yn domenni glo yng Nghymru. Er mwyn cydbwyso hyn â'r angen i weithredu'n gyflym mewn perthynas â thomenni glo, rydym yn cynnig dull gweithredu fesul cam gan ganolbwyntio ar domenni glo i ddechrau.

Byddai Deddf 1969 yn parhau i fod yn berthnasol i unrhyw domenni nas defnyddir nes eu bod yn cael eu hychwanegu at y gofrestr asedau arfaethedig. Bydd hyn yn caniatáu proses hawdd ei dilyn ar gyfer cyflwyno tomenni nad ydynt yn domenni glo i mewn i'r drefn dros amser.

- *<u>Awdurdod Goruchwylio</u> (A.3 – A.6)*

Roedd yr adroddiad yn argymell sefydlu awdurdod goruchwylio newydd – corff cyhoeddus canolog – sy'n gyfrifol am ddiogelwch yr holl domenni glo nas defnyddir, ac y bydd dyletswydd gyffredinol arno i sicrhau bod tomenni glo'n ddiogel.

Mae angen goruchwylio i sicrhau dull gweithredu cyson ar gyfer y drefn newydd ac i sicrhau y cydymffurfir â'r drefn. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod arbenigedd perthnasol ar gael i ddarparu'r wybodaeth dechnegol sydd ei hangen er mwyn cyflawni llawer o'r swyddogaethau. Felly, rydym yn cytuno â'r rhesymeg y tu ôl i argymhelliad Comisiwn y Gyfraith fod angen awdurdod goruchwylio (*A.3*).

Fodd bynnag, yng ngoleuni'r nifer sylweddol uwch o domenni nad ydynt yn rhai glo, nid yw'n ymarferol bod yr awdurdod goruchwylio'n gyfrifol yn *uniongyrchol* am yr holl domenni sborion nas defnyddir yng Nghymru. Felly, rydym yn cynnig dyrannu parti cyfrifol i domen ar sail categori'r domen.

| Categori'r Domen | Parti Cyfrifol[1] |
|---|---|
| Categori 1 | Awdurdod Goruchwylio |
| Categori 2 | Awdurdodau Lleol ar gyfer tomenni yn eu hystad a thomenni sy'n eiddo preifat |
| Categori 3 | Perchnogion |
| Categori 4 | Perchnogion |
| Categori 5 | Perchnogion ond wedi'u heithrio |

*Tabl 2: y parti cyfrifol yn ôl categori'r domen.*

Rydym wedi ystyried amrywiol opsiynau ar gyfer corff o'r fath, gan gynnwys yr angen am annibyniaeth briodol oddi wrth Weinidogion Cymru a chyrff eraill sydd â'u hystadau tomenni eu hunain (glo a heb fod yn rhai glo). Felly, rydym yn cefnogi argymhelliad y Comisiwn y dylid sefydlu corff newydd (*A.4*) a byddwn yn ceisio ei sefydlu fel corff gweithredol newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru (yn bodloni *A.5*).

Er nad yw'n uniongyrchol gyfrifol am yr holl domenni nas defnyddir, bydd dyletswydd gyffredinol ar yr awdurdod goruchwylio i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn sicrhau diogelwch tomenni sborion nas defnyddir yng Nghymru (*A.6*).

Bydd hyn yn rhan o fframwaith lle mae dyletswyddau hefyd yn gyfrifoldeb i bartïon eraill, a bydd yr awdurdod goruchwylio yn sicrhau dull gweithredu cyson mewn perthynas ag archwilio, arfarnu, categoreiddio a datblygu cynlluniau rheoli.

Credwn fod hyn yn cyfleu'r rhesymeg y tu ôl i argymhelliad Comisiwn y Gyfraith.

- *Cofrestr Tomenni (A.7 – A.14)*

Ar hyn o bryd nid oes cofrestr asedau bendant sy'n nodi tomenni sborion glo mewn ffordd gyson. Mae hyn yn golygu nad oes ffordd hawdd o ganfod pwy sy'n berchen ar domenni na chadw golwg ar newidiadau i ddata. Bydd cofrestr asedau yn sicrhau bod y drefn newydd yn seiliedig ar un set o ddata unffurf, cydlynol a dibynadwy. Rydym yn bwriadu i'r awdurdod goruchwylio fod o dan ddyletswydd i gadw a chynnal cofrestr o'r fath (yn bodloni *A.7*).

---

[1] Yr Awdurdod Glo a Cyfoeth Naturiol Cymru fydd y parti cyfrifol ar gyfer yr holl domenni maent yn berchen arnynt.

Bydd argymhelliad yr adroddiad ar hyblygrwydd mewn perthynas â'r gofrestr asedau yn bwysicach fyth wrth i domenni nad ydynt yn rhai glo gael eu cyflwyno'n raddol yn y drefn. Rydym yn cynnig bod cynnwys sylfaenol y gofrestr yn cael ei ragnodi gan Weinidogion Cymru mewn is-ddeddfwriaeth (*A.8*).

Ein cynigion yw ymestyn y drefn i domenni nad ydynt yn rhai glo, ac y bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy eu cyflwyno'n raddol ar y gofrestr. O'r herwydd, byddai dyletswydd ar yr awdurdod goruchwylio i gynnwys ar y gofrestr unrhyw domen y mae'n ymwybodol ohoni (*A.9*) a fyddai mewn perygl o danseilio'r dull hwnnw a chreu problemau ymarferol i'r awdurdod goruchwylio.

Mae'r adroddiad hefyd yn argymell rhoi hawl i apelio yn erbyn cynnwys tomen ar y gofrestr ar y sail nad oes tomen wedi'i lleoli ar y tir, ond na ddylai arfer hawl o'r fath arwain at ohirio gwaith brys. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r dull hwn (yn bodloni *A.10*).

Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu cynnig y dylai fod yn drosedd diannod i fethu â hysbysu'r awdurdod goruchwylio bod tomen yn bodoli nad yw wedi'i chynnwys ar y gofrestr ar hyn o bryd (*A.11*). Er ein bod wedi nodi ein bod yn cytuno â chynsail yr argymhelliad hwn yn y Papur Gwyn, rydym o'r farn y gallai'r cynnydd yng nghwmpas y drefn i gynnwys tomenni nad ydynt yn rhai glo, a'r dull graddol o ychwanegu'r tomenni hynny, gynyddu'r tebygolrwydd o ddigwyddiad o'r fath a rhoi baich dryslyd neu feichus ar berchnogion tomenni yn anfwriadol.

Er ein bod yn cytuno â'r bwriad y tu ôl i'r argymhellion y dylai'r cyhoedd gael mynediad i'r gofrestr tomenni (*A.13*) ac y dylai ei chynnwys gael ei reoli yn ôl p'un a yw er budd y cyhoedd i fod ar gael yn gyhoeddus (*A.12*), byddwn yn ceisio cyflawni'r un dibenion drwy ddull gweithredu ychydig yn wahanol.

Gan ein bod yn cynnig bod y drefn yn gosod dyletswyddau a swyddogaethau ar amrywiaeth o bartïon cyfrifol, bydd y gofrestr asedau yn adnodd craidd i alluogi'r partïon hynny i ymgysylltu â'r drefn. Bydd hyn yn golygu bod gofyn i bartïon cyfrifol gael mynediad gwahaniaethol i'r gofrestr, i gael mynediad at y data ac i'w ddiweddaru. O'r herwydd, nid ydym yn bwriadu i'r gofrestr asedau fod yn adnodd cyhoeddus yn ei gyfanrwydd.

Yn hytrach, rydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod goruchwylio ddarparu gwybodaeth benodol yn gyhoeddus, yn enwedig lleoliad tomenni. Bydd yr wybodaeth hon, yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad, yn cael ei rheoli yn ôl a yw er budd y cyhoedd i fod ar gael i'r cyhoedd.

Roedd yr adroddiad hefyd yn argymell ymgysylltu ynghylch chwilio'r gofrestr fel rhan o chwiliad trawsgludo safonol mewn perthynas ag eiddo yng Nghymru (*A.14*). Rydym yn gweld gwerth yn y cynnig hwn, er ein bod yn bwriadu gwneud chwiliad o'r fath yn wirfoddol ar hyn o bryd. Mae hwn yn faes y byddwn yn parhau i'w archwilio gyda'n rhanddeiliaid.

- *Archwilio Tomenni, Asesiadau Risg, Cynlluniau Rheoli Tomenni a Dosbarthiadau Risg (A.15 – A.20)*

Mae'r dull gweithredu rydym yn ei gynnig yn adeiladu ar yr argymhellion yn yr adroddiad a'r ymatebion i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith a'r Papur Gwyn. Rydym wedi ceisio cofnodi bwriad yr argymhellion yn yr adroddiad mewn trefn sydd hefyd yn cynnwys tomenni nad ydynt yn rhai glo.

Fel yr amlinellwyd yn fy llythyr, ac ym Mhennod 4 y Papur Gwyn, mae ein cynigion yn gofyn am asesu'r peryglon wrth gofnodi tomen ar y gofrestr asedau, yn hytrach nag archwiliad (*A.15*). Diben arfaethedig yr archwiliad cychwynnol oedd asesu risg a dylunio cynllun rheoli tomenni. Er bod llawer o'r bwriad yn cael ei gadw – hynny yw, darparu gwybodaeth bwysig

am statws tomen – rydym wedi mabwysiadu dull wedi'i addasu i gyd-fynd â gweddill y drefn arfaethedig.

Mae'r adroddiad yn argymell y dylid rhoi dyletswydd ar berchnogion a meddianwyr i rannu dogfennau sydd yn eu meddiant sy'n berthnasol i'r domen neu'r tir y mae wedi'i lleoli arno adeg archwilio (*A.16*). Er mwyn gweithio o fewn ein dull polisi, rydym wedi datblygu'r cynnig hwn i roi dyletswydd ar ddeiliaid gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol sy'n ymwneud â thomen a nodwyd i'w rhannu â'r awdurdod goruchwylio pan ofynnir iddynt wneud hynny, er mwyn asesu'r peryglon neu ddatblygu cynllun rheoli.

Mae'r dyletswyddau a argymhellir ar gyfer yr awdurdod goruchwylio i drefnu asesiadau risg, i drefnu a chymeradwyo cynlluniau rheoli, ac i ddyrannu 'categori risg' ar sail yr adroddiad archwilio a'r asesiad risg (*A.17*) wedi cael eu haddasu i gyd-fynd â'n cynigion polisi, fel yr amlinellir yn fy llythyr.

Yn yr un modd, rydym wedi cynnig pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi cynnwys asesiadau risg a chynlluniau rheoli. Mae'n wahanol i argymhelliad penodol Comisiwn y Gyfraith (*A.18*) gan ei fod yn cyd-fynd â'n dull arfaethedig o asesu'r peryglon, a'r nifer uwch o domenni arfaethedig. Bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi cynnwys sylfaenol asesiadau peryglon, a chynlluniau rheoli ar gyfer y tomenni risg uwch, gyda'r awdurdod goruchwylio yn gallu cyhoeddi canllawiau pellach.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cyflwyno nifer o awgrymiadau ar ystyriaethau y dylai dosbarthiad risg roi sylw iddynt (*A.19* ac *A.20*). Mae ein cynigion yn ceisio cynnig dull ehangach o asesu'r peryglon a chategoreiddio wedyn, er mwyn gallu asesu tomenni glo a thomenni nad ydynt yn rhai glo yn gadarn. Byddai'r dull hwnnw, lle bo hynny'n briodol, yn ymgorffori'r ystyriaethau yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith.

- *Sicrhau bod Tomenni Risg is yn cael eu Cynnal a'u Cadw (A.21 – A.24)*

Rydym yn cydnabod gwerth cytundebau cynnal a chadw fel y'u cynigir yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith ac rydym yn derbyn yr argymhelliad yn llawn (*A.21*).

Yn hytrach na darparu ar gyfer archwiliadau sydd wedi'u trefnu gan awdurdodau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chytundebau cynnal a chadw (*A.22*), rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i bartïon cyfrifol drefnu archwiliadau ac arfarniadau bob hyn a hyn (fel yr amlinellir yn fy mhrif lythyr), a diweddaru'r gofrestr gyda'r adroddiadau dilynol. Yn ogystal â hyn, mae'r cynigion yn rhoi pŵer i'r awdurdod goruchwylio gynnal hapwiriadau i sicrhau y cydymffurfir â'r drefn, gan gynnwys bod archwiliadau, arfarniadau a gwaith yn cael eu cynnal fel y cytunwyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu ac yn derbyn y cynigion yn yr adroddiad sy'n ymwneud â gorchmynion tomenni, gan gynnwys mewn perthynas ag apeliadau a gwaith brys (yn bodloni *A.23*).

Rydym yn derbyn yr argymhelliad i ddarparu pŵer i lunio cytundebau gyda pherchnogion tomenni yn gyffredinol (*A.24*). Bydd ein cynnig penodol hefyd yn golygu y gall awdurdodau lleol ymrwymo i gytundebau o'r fath ar gyfer tomenni categori 2 ac y bydd cytundebau cynnal a chadw, ar wahân i'r rhai y cytunir arnynt gan awdurdodau lleol, yn cael eu goruchwylio gan yr awdurdod goruchwylio.

- *Blaenoriaethu Gwaith ar Domenni Risg Uwch (A.25 – A.28)*

Rydym wedi ystyried argymhellion yr adroddiad ac rydym yn credu bod ein cynigion yn adlewyrchu bwriad Comisiwn y Gyfraith. Er nad yw'n seiliedig ar ddynodi tomenni yn domenni risg uwch ac is, credwn fod ein dull polisi yn adlewyrchu nifer o'r ystyriaethau a gyflwynwyd

gan Gomisiwn y Gyfraith ac ymatebwyr i'w ymgynghoriad. Yn benodol, y cydgysylltiad rhwng asesu risg, categoreiddio risg a dynodiadau.

Mae ein dull gweithredu arfaethedig yn seiliedig ar y pum categori o domenni a amlinellir yn fy llythyr. Dylid seilio'r system gategoreiddio ar asesu'r peryglon a dylai gysylltu â threfn fonitro a chynnal a chadw gymesur. O'r herwydd, er nad ydym wedi mynd ar drywydd polisi sy'n ymwneud â dynodi tomenni risg uwch, bydd categoreiddio'n sicrhau canlyniad tebyg (*A.25*).

Mae ein dull gweithredu wedi adeiladu ar yr adroddiad, a oedd yn gadael agweddau technegol categoreiddio i Lywodraeth Cymru. Mae wedi datblygu mewn ymateb i brofiadau'r broses gategoreiddio interim a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Glo, yn ogystal â'r ymatebion i'r Papur Gwyn a'r broses o ehangu cwmpas y drefn i gynnwys tomenni nad ydynt yn rhai glo.

Mae ein cynigion yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r categorïau a'u disgrifyddion a'r dull o asesu peryglon sy'n sail i gategoreiddio (sy'n cysylltu ag *A.25*). Bydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio mewn ymgynghoriad ag arbenigwyr (*A.26*).

Ar gyfer y categorïau uchaf o domenni, yr awdurdod goruchwylio (categori 1) ac awdurdodau lleol (tomenni categori 2 sydd yn eu hystad neu mewn perchnogaeth breifat) fydd y partïon cyfrifol, ac felly o dan ddyletswydd i reoli a chynnal y tomenni. Yr eithriad i hyn yw tomenni sy'n eiddo i'r Awdurdod Glo neu Cyfoeth Naturiol Cymru, a fydd yn barti cyfrifol ar gyfer eu tomenni eu hunain, ac y bydd y ddyletswydd yn berthnasol iddynt.

Ar gyfer tomenni categori is (categori 3 a 4), y perchennog fel arfer fydd y parti cyfrifol a bydd y ddyletswydd yn berthnasol iddo. Ar gyfer tomenni categori 5, mae dyletswydd i roi gwybod i'r awdurdod goruchwylio os oes newid sylweddol i'r domen. Ym mhob achos, gall y parti cyfrifol drefnu i barti addas wneud gwaith ar ei ran o dan gontract.

Felly, mae ein cynigion yn ymestyn y partïon cyfrifol y mae'r argymhelliad yn berthnasol iddynt, gan gadw bwriad yr ail ran i alluogi gwaith o'r fath i gael ei roi ar gontract allanol *(A.27*).

Mae ein dull o bennu'r gwaith sydd i'w wneud wedi'i amlinellu yn fy llythyr ac ym mhennod 7 y Papur Gwyn. Mae'n defnyddio cytundebau cynnal a chadw a, lle bo angen, gorchmynion cynnal a chadw tomenni. Fodd bynnag, gan nad ydym yn bwriadu dynodi tomenni, mae hyn o reidrwydd yn wahanol i'r argymhelliad penodol (*A.28*).

- *Diffiniadau (A.29)*

Rydym yn derbyn y diffiniad y mae Comisiwn y Gyfraith yn ei argymell ar gyfer perchennog, yn amodol ar yr angen i ystyried yr union ddrafft yng nghyd-destun y Bil ehangach (yn bodloni *A.29*).

- *Pwerau Gorfodi, Troseddau ac Apeliadau (A.30, A.31)*

Fel yr amlinellwyd yn fy llythyr interim, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen hawliau mynediad effeithiol a phwerau ychwanegol neu fynediad at dir preifat er mwyn gallu cynnal archwiliadau, gwaith cynnal a chadw a hapwiriadau. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yn llwyr yr argymhellion sy'n ymwneud â phŵer mynediad (*A.30*).

Roeddem hefyd yn cydnabod yr angen am bwerau gorfodi effeithiol a chymesur i sicrhau bod y drefn reoleiddio'n effeithiol, ac y dylai hyn gynnwys sancsiynau sifil am fethu â chydymffurfio â gorchymyn cynnal a chadw, a throsedd lle nad yw gwaith brys yn cael ei gwblhau heb esgus rhesymol (*A.31*).

Bydd y drefn arfaethedig, yn dilyn argymhellion Comisiwn y Gyfraith, hefyd yn darparu ar gyfer apeliadau. Ni fydd y rhain yn ymyrryd ag ymgymryd â gwaith sydd angen ei wneud ar frys.

- *Telerau Ariannol Cytundebau a Thelerau Eraill* *(A.32, A.33)*

Rydym yn derbyn yr argymhellion sy'n ymwneud â darparu taliadau mewn cytundebau cynnal a chadw a gorchmynion cynnal a chadw tomenni (*A.32*), ac y bydd yr egwyddorion sy'n llywodraethu'r rhain yn cael eu nodi gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol (*A.33*).

- *Sgiliau Arbenigol* *(A.34)*

Mae fy swyddogion yn edrych ar sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyda diwydiant ac academyddion mewn perthynas â materion capasiti a gallu yn y maes hwn a byddant yn cyhoeddi diweddariad maes o law. Megis dechrau y mae'r ymgysylltu hwn ond bydd yn cynnwys ystyried yr angen am gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i wneud gwaith diogelwch ar domenni (*A.34*). Ni fydd y gwaith hwn yn rhan o'r Bil sy'n cael ei ddatblygu.

- *Diogelwch Tomenni a Deddfwriaeth Amgylcheddol* *(A.35, A.36)*

Mae'r rhyng-gysylltiad rhwng y drefn arfaethedig â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol a chynllunio bresennol yn gymhleth. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd angen gwneud gwaith brys mewn perthynas â thomen sborion (*A.35*, *A.36*). Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn cwmpasu'r rhyng-gysylltiadau hyn ar draws nifer o feysydd polisi. Cefnogir y gwaith hwn gan adroddiad ar ystyriaethau cyfraith amgylcheddol a'r goblygiadau i Lywodraeth Cymru gan academyddion ym Mhrifysgol Birmingham.